**Cofnodion cyfarfod Fforwm Derbyn Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn rhithiol ar Teams ar ddydd Iau, 22 Mai 2025**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Wyn Thomas (Cadeirydd), Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth; y Cynghorydd Chris James, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu; Enid Brophy, Pennaeth: Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant; Lee Burrows, Pennaeth: Ysgol Cenarth a Llechryd; Carol Davies, Pennaeth: Ysgol Dyffryn Cledlyn; Peter Leggett, Pennaeth: Ysgol Gynradd Rhydypennau a Dorian Pugh, Pennaeth: Ysgol Henry Richard.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Elen James, Prif Swyddog Addysg a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant; Gwion Dafydd, Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd; Cheryl Evans, Swyddog Derbyn Ysgolion a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(4.00pm – 4.40pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Ymddiheurodd Peter Leggett, Pennaeth: Ysgol Gynradd Rhydypennau am ymuno â'r cyfarfod yn hwyr.

2. **Datgelu Buddiannau Personol**
   Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol.

3. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2024**
   **CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2024.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion**
   Dim.

5. **Polisi Derbyn 2026-2027**
   Rhoddwyd ystyriaeth i'r fersiwn ddiweddaraf o'r polisi a oedd i'w chyflwyno i'r Cabinet ar 3 Mehefin 2025.

   Nododd y Cynghorydd Bryan Davies bod llythyr yn ei enw wedi cael ei anfon at Lywodraeth Cymru ar addysg gartref a'r angen i Swyddogion gael mynediad at aelwydydd.

   Esboniodd y Swyddog Derbyn Ysgolion nad oedd gan Swyddogion lawer o hawliau i gael mynediad at aelwydydd ar hyn o bryd, ond gobeithio y byddai hyn yn newid yn y dyfodol.

   Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Bryan Davies yn ymwneud â chapasiti Ysgol Gynradd Llanarth ar ôl cwblhau datblygiadau tai lleol, nododd y Swyddog Derbyn Ysgolion ei bod yn anodd rhagweld nifer y teuluoedd ifanc sy'n symud i unrhyw ddatblygiad tai newydd, ond y byddai'r sefyllfa'n cael ei monitro yn unol â hynny.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Dorian Pugh, Pennaeth Ysgol Henry Richard yn ymwneud â pheidio â chael ei chydnabod fel un ysgol o ran capasiti gan ei bod wedi'i gategoreiddio fel ysgol gynradd ac uwchradd, eglurodd y Swyddog Derbyn Ysgolion nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer ysgolion 3-16.

Esboniodd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd ei fod yn bwriadu ymweld ag Ysgol Henry Richard ar ôl yr egwyl hanner tymor, i gynnal adolygiad o'r defnydd o ystafelloedd yn yr ysgol ac i ddiweddaru'r cyfrifiadau capasiti os oes angen.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

**6. Niferoedd Blwyddyn 7 - Medi 2025**

Esboniodd y Swyddog Derbyn Ysgolion fod data ar gyfer Medi 2025 wedi'i gylchredeg er gwybodaeth. Roedd pump o ddisgyblion eto i wneud cais am le, ond roedd yn hysbys pa ysgolion y byddent yn eu mynychu. Ar wahân i hyn, nid oedd disgwyl y byddai llawer o newid.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

**7. Niferoedd Blwyddyn Derbyn – Medi 2025 & 2026**

Adroddodd y Swyddog Derbyn Ysgolion nad oedd llawer o broblemau wedi bod gyda derbyn disgyblion oedran derbyn ar gyfer 2025 a bod y niferoedd bron yn derfynol. Roedd y niferoedd derbyn ar gyfer 2026 hefyd ar y gweill. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o ysgolion o dan eu rhif derbyn. Mewn achosion lle mae'r nifer yn fwy na hyn, byddai ystyriaeth yn cael ei roi i niferoedd cyffredinol disgyblion yr ysgol ynghyd â thrafodaeth gyda'r Pennaeth ynghylch a fyddent yn hapus i dderbyn disgyblion ychwanegol.

Nododd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd fod dyddiad cau derbyniadau Ceredigion wedi cau cyn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. O ddealltwriaeth y gwasanaeth, roedd tua 150 o blant meithrin heb wneud cais eto am dderbyniad ar gyfer 2026. Nodwyd bod llawer o rieni/gwarcheidwaid yn ddryslyd gyda'r broses ac yn meddwl y byddai cael lle yn y dosbarth meithrin yn arwain at le yn y dosbarth derbyn, fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir. Ychwanegodd fod capasiti Ysgol Gynradd Penparc wedi lleihau oherwydd y ffordd y mae'r ysgol yn defnyddio'r safle. Roedd y 2 flynedd nesaf yn fawr, fodd bynnag, roedd capasiti a photensial i ddefnyddio ystafelloedd dosbarth mwy.

Mewn ymateb i awgrym y Cadeirydd bod mwy o ddisgyblion yn symud i flwyddyn 7 na'r nifer a ddechreuodd yn oed derbyn, eglurodd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd fod hyn yn gywir. Eglurodd fod y gyfradd geni wedi gostwng, felly roedd yn allweddol monitro'r sefyllfa i sicrhau y gellid cynnwys unrhyw newidiadau mewn rhagamcanion yn y dyfodol.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth

8. **Apeliadau Derbyn Ganol Flwyddyn 2025-2026**
Adroddodd y Swyddog Derbyn Ysgolion nad oedd unrhyw Apeliadau Derbyn canol blwyddyn hyd yma ers y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2024.

Esboniodd Enid Brophy, Pennaeth: Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant fod apêl ar y ffordd gyda Padarn Sant.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

9. **Diweddariad Capasiti**
Dywedodd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd fod hon yn eitem newydd ar gyfer agenda. Darparwyd trosolwg o gapasiti ysgolion yr awdurdod lleol. Roedd sawl ffactor yn cyfrif am y newidiadau mewn capasiti fel defnydd ac ehangu ystafelloedd.

Dylid adolygu capasiti ysgol yn flynyddol, ond oherwydd tîm bach, nid oedd hyn yn bosibl ac roedd ysgolion a oedd dros gapasiti neu wedi newid y ffordd y defnyddiwyd y safle yn cael eu hadolygu yn gyntaf. Wrth bennu'r capasiti, roedd yn rhaid i'r awdurdod lleol ddilyn dogfen statudol gan Lywodraeth Cymru. Byddai unrhyw newid mewn capasiti yn cael ei drafod gyda'r Penaethiaid ac roedd proses apelio ar waith pe na bai corff llywodraethol ysgol yn cytuno â'r capasiti a osodwyd. Fel y soniwyd o'r blaen, roedd yn bwriadu ymweld ag Ysgol Henry Richard ar ôl yr egwyl hanner tymor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Peter Leggett: Pennaeth, Ysgol Gynradd Rhydypennau nodwyd bod y capasiti ar gyfer dosbarthiadau derbyn a meithrin ar wahân. Holodd beth fyddai'n digwydd pe bai'r ysgol wedi cyrraedd eu nifer derbyn cyn y derbyniad Pasg.

Dywedodd y Swyddog Derbyn Ysgolion pe bai rhieni / gwarcheidwaid yn gwneud cais erbyn y dyddiad cau, roedd yn deg i bawb a gellid mynd i'r afael ag unrhyw broblemau. Cydnabuwyd mai dim ond ychydig wythnosau cyn i'w plentyn ddechrau yn y dosbarth derbyn yr oedd rhai rhieni / gwarcheidwaid yn eu cofio. Roedd heriau ar adegau gyda chapasiti ysgolion gan fod gan ysgolion yr awdurdod lleol dri derbyniad y flwyddyn, yn hytrach nag un derbyniad fel oedd yn achos llawer o'r awdurdodau eraill.

Ychwanegodd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd fod Ceredigion wedi cytuno i dri derbyniad i gefnogi teuluoedd oherwydd diffyg darpariaeth gofal plant a meithrinfeydd. Dywedodd y byddai'n broses symlach i deuluoedd a Swyddogion pe bai dim ond un derbyniad ar waith, ond byddai'r manteision o gael y disgyblion yn dechrau'r ysgol yn gynharach yn cael eu colli.

Dywedodd Peter Leggett: Pennaeth Ysgol Gynradd Rhydypennau ei bod yn werth chweil i ddisgyblion ddechrau yn gynharach gan ei fod yn caniatáu iddynt ymgyfarwyddi â'r ysgol.

Awgrymodd Enid Brophy: Pennaeth Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant ffurflenni gwahanol liwiau ar gyfer ceisiadau dosbarth meithrin a derbyn.

Esboniodd y Swyddog Derbyn Ysgolion fod yn ofynnol i rieni / gwarcheidwaid lenwi ffurflenni ar wahân i wneud cais am le yn nosbarth meithrin a derbyn, fodd bynnag, wrth wneud cais i ddosbarth meithrin, roedd adran ar ddiwedd y ffurflen a oedd yn gofyn a oedd angen cais derbyn y flwyddyn ganlynol. Yn gyffredinol, roedd y broses hon yn gweithio'n dda ac yn atal dyblygu rhieni / gwarcheidwaid, ond er mwyn iddo weithio, roedd yn rhaid cwblhau cais meithrin yn gyntaf.

Dywedodd Peter Leggett: Pennaeth Ysgol Gynradd Rhydypennau fod y broses hon yn gweithio'n dda gan y byddai rhieni / gwarcheidwaid yn aml yn anghofio gwneud cais am dderbyniad.

**10. Unrhyw fater arall**

Diolchodd y Cadeirydd a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion, Dysgu Gydol Oes i bawb am eu presenoldeb.

Esboniodd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd fod yr awdurdod lleol i fod i anfon data ar amcanestyniadau disgyblion i Lywodraeth Cymru ym mis Medi / Hydref. Soniodd mai'r cynllun yw i bob ysgol dderbyn adroddiad penodol i'w hysgol y gellid ei rannu gyda chorff llywodraethu'r ysgol er mwyn bod yn fwy tryloyw ynglŷn â rhagamcanion disgyblion yn y dyfodol. Yn hanesyddol, roedd y model amcanestyniadau disgyblion wedi bod tua 98-99% yn gywir ar lefel sir.

**11. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w ddosbarthu maes o law.